



Gwybodaeth i  
**Rieni a Gwarcheidwaid**

# Croeso i Aber

Mae dewis ble i fynd i'r Brifysgol a beth i'w astudio yn un o groesffyrdd mawr bywyd. Fel rhiant fy hun, gwn fod penderfyniadau o'r fath yn aml yn destun trafodaeth ymhlith y teulu cyfan yn ogystal â ffrindiau felly rwy'n gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried manteision addysg Prifysgol Aberystwyth.

Yn gyntaf oll, mae Aberystwyth yn Brifysgol ag iddi enw da am ragoriaeth academiaidd ac ymchwil sy'n dyddio'n ôl i 1872. Mae gennyf staff addysgu sy'n flaenllaw yn eu maes ac sydd â'u byrd ar ddarparu dysgu arloesol ac ysbrydoledig mewn amgylchedd ysgogol. Rydym wedi buddsoddi mewn ystafelloedd addysgu o ansawdd uchel sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a lle mae darlithoedd yn cael eu recordio fel gall ein myfyrwr eu gwyllo eto wrth iddynt adolygu.

Mae'n staff hefyd yn adnabod eu myfyrwr yn dda. Nid sefydliad mawr, di-wyneb 'mohonom.

Mae Aber yn gymuned gefnogol, groesawgar ac amrywiol ac mae hyn i'w weld nid yn unig ar y campws ond hefyd yn y dre, sy'n chwarae rhan mor bwysig ym mywyd myfyrwr yma.

Mae'n lleoliad arbennig ar yr arfordir ac mewn ardal hynod ddiogel, lle gall myfyrwr ffynnu a datblygu wrth iddynt fynd i'r afael â heriau addysg uwch a byw'n annibynnol.

Er mwyn pontio rhwng y cartref a'r campws, rydym yn gwarantu lle mewn llety o eiddo'r Brifysgol i bob glasfyfyrwr. Mae'n ffordd wych o wneud ffrindiau newydd a cheir dewis eang sy'n diwallu anghenion a chyllidebau gwahanol.

Rydym yn cynnig pecyn o ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau rhagorol hefyd - gan gydnabod llwyddiant yn ogystal â chynnig cefnogaeth a chymorth gyda chostau astudio.

Rydym yn falch iawn bod 97% o'n graddedigion mewn gwaith neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl iddynt raddio (HESA 2018). Mae sicrhau bod gan ein myfyrwr y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol yn elfen bwysig o'n rhaglenni gradd,

gyda llawer o'n cynlluniau'n cynnig blwyddyn mewn diwydiant neu brofiad yn y gweithle. Mae gan y Brifysgol gynllun arbennig hefyd sy'n cynnig swyddi rhan-amser gyda thâl i fyfyrwr yn ystod y tymor neu'r gwyliau.

Cafodd ansawdd y profiad myfyrwr a gynigir yma ei adlewyrchu yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwr 2018, sy'n casglu barn israddedigion blwyddyn olaf. Roedd Aberystwyth ar y brig yng Nghymru eleni eto ac ymhlith y pum prifysgol orau o'u bath yn y DU o ran boddhad cyffredinol myfyrwr.

Porwch drwy'r tudalennau nesaf i gael gwybod mwy ac os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â ni. Holwch hefyd am ein Cynllun Academiaidd Cyfrwng Cymraeg sy'n rhestru'n arlwy academaidd a'n hymrwymiad i hybu'r iaith a'i diwylliant.

Mae fy staff a minnau yma i'ch helpu chi a'ch plentyn wrth iddynt wneud dewisiadau am eu dyfodol ac edrychwn ymlaen i gwrdd â chi ar y campws yn fuan.



Yr Athro Elizabeth Treasure  
Is-Ganghellor

## Cynnwys

Neuadd Pantycelyn	04
Pam Aberystwyth?	06
Helpu eich plentyn gyda'u penderfyniad	10
Egluro rhai termau...	12
Astudiaethau israddedig yn Aberystwyth	14
Dysgu drwy'r Gymraeg	16
Y dyfodol a'u gyrfa	18
Cefnogaeth i fyfyrwr	19
Astudio dramor	20
Ffioedd dysgu a chymorth ariannol	22
Campws y Brifysgol	24
Llety	30
UMCA	34
Clybiau chwaraeon a chymdeithasau	36
Chwaraeon yn Aber	38
Canolfan y Celfyddydau	40
Cydraddoldeb ac amrywioldeb yn Aberystwyth	44
Ymchwil yn Aberystwyth	46
Aberystwyth: y dref	48
Sut i baratoi eich plentyn	54
Amserlen y tymor	56
Cysylltwch â ni	57



# Pantycelyn: Agor Medi 2020



Yn 2020 bydd Neuadd Pantycelyn ar ei newydd wedd yn agor ei drysau ac yn galon i gymuned myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Aberystwyth.

Bydd yr adeilad eiconig yn 'gartref-oddicartref' i fyfyrwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt ac yn darparu llety o'r radd flaenaf i 200 o fyfyrwyr mewn ystafelloedd en-suite. Neuadd arlwygo yw Pantycelyn, sy'n parhau â'r traddodiad o gynig ffreutur, lolfa, lle i gymdeithasu a mannau astudio am £167.02 yr wythnos am 33 wythnos (£5,511 y flwyddyn), ac ni fydd yn ofynnol i fyfyrwyr symud eu heiddo allan o Bantycelyn yn ystod y gwyliau.

Bydd Pantycelyn hefyd yn gartref i UMCA - Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, sy'n gofalu am les a buddiannau myfyrwyr, ac yn trefnu rhaglen fywiog o ddigwyddiadau cymdeithasol. Byddwch yn rhan o'r bwrlwm ac yn un o'r miloedd o fyfyrwyr sydd wedi galw Pantycelyn yn 'gartref'.



## Prif nodweddion Pantycelyn

### Ystafelloedd sengl en-suite

Bydd Pantycelyn yn costio £167.02 yr wythnos, gyda chyfanswm y cytundeb preswlydd yn 33 wythnos. Mae'r ffi am y llety yn cynnwys yr holl filiau, cysylltiad rhyngwyd (gwifredig a WiFi), yswiriant cynnwys personol ac aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon.

Fel neuadd arlwyol, gall myfyrwyr gael brecwast a phryd gyda'r nos yn 'Y Ffreutur' ar y llawr gwaelod o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, gall preswylwyr ddefnyddio'r lwfans arlwygo o £50 yr wythnos ar unrhyw adeg, ac yn unrhyw fan arlwygo ar draws y Brifysgol. Bydd hyn yn rhoi'r rhyddid i chi i ddefnyddio'r lwfans arlwygo yn y ffordd sy'n gweddu orau i chi.

Bydd Pantycelyn hefyd yn cynnwys ceginau bach gyda'r cyfarpar canlynol:

- i. Popty micro-don
- ii. Tostiwr
- iii. Oergell/Rhewgell
- iv. Boeler dŵr poeth
- v. Sinc



Ar lawr gwaelod Pantycelyn, bydd sawl ystafell gymunedol a fydd yn cynnig ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau. Rhoddir isod fanylion am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a gynigir fesul ystafell:

<b>Lolfa Fach</b>	<b>Ystafell aml-bwrpas:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wal addysgu a darllenfa ar gyfer sgysiau a darlithoedd.</li> <li>• Piano y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ymarferion Côr Pantycelyn.</li> <li>• Cadeiriau, a byrddau y gellir eu rhoi i gadw i ganiatau defnydd hyblyg o'r ystafell.</li> </ul>
<b>Ystafell Gyffredin Hŷn</b>	Ystafell gyfarfod mawr gydag offer rhoi cyflwyniadau. Bydd yr ystafell hon yn gartref i biano cyngerdd bach felly gall grwpiau bychan ei defnyddio i ymarfer cerddoriaeth.
<b>Ystafell Gyffredin Iau</b>	Lolfa fach gyda soffas a byrddau coffi.
<b>Lolfa Fawr</b>	Lolfa fawr gyda soffas, byrddau coffi, cyfleusterau aml-gyfrwng a lle i chwarae gemau.
<b>Ystafell Astudio 1</b>	Ystafell astudio tawel gyda chyfleusterau cyfrifiadura.
<b>Ystafell Astudio 2</b>	Ystafell astudio tawel gyda chyfleusterau cyfrifiadura.
<b>Y Ffreutur</b>	Bwyty mawr gyda meinciau eistedd.
<b>Ystafell Bost</b>	Ystafell bwrpasol ar gyfer post a pharseli gyda blychau post diogel.
<b>Ystafelloedd Cyfarfod</b>	Darperir dwy ystafell gyfarfod bach yn ychwanegol i'r Ystafell Gyffredin Hŷn.
<b>Ystafell Golchi Dillad</b>	Darperir ystafell golchi dillad ar y safle gyda 4 peiriant golchi a 4 sychwr.



- newydd gael ei adnewyddu
- yn agor ym mis Medi 2020
- ystafelloedd sengl, en-suite

- llety arlywyl yn benodol ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg gyda ffreutur, lolfa, gofod astudio a manau cymdeithasol
- £167 yr wythnos
- o fewn pellter cerdded i'r campws a'r dref.

# Pam Aberystwyth?

Drwy ddewis Prifysgol Aberystwyth byddwch yn dewis canolfan addysg mewn lleoliad heb ei ail. Ar lannau arfordir y gorllewin rhwng Bae Ceredigion a Mynyddoedd y Cambria, byddwch yn rhan o gymuned gyfeillgar, eang ei gorwelion, lle mae'r gorwel pell yn ysgogi uchelgais a dyhead. Mae myfyrwyr yn dod yma ers 1872, wedi'u denu gan ein henw da am ddysgu rhagorol a phrofiad eithriadol ein myfyrwyr. Dyma mwy o resymau dros ddewis astudio yn Aberystwyth:

## **Prifysgol y flwyddyn ar gyfer Ansawdd Dysgu 2019**

(The Times & Sunday Times, Good University Guide 2019)

## **Prifysgol y flwyddyn ar gyfer Ansawdd Dysgu 2018**

(The Times & Sunday Times, Good University Guide 2018)

## **Gwobr Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr 2018**

(FfRha 2018)

## **Roedd 99% o'n graddedigion a astudiodd rhan o'u gradd trwy gyfrwng y Gymraeg mewn swyddi o fewn chwe mis**

(Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch 2018)

## **Un o'r prifysgolion gorau yng Nghymru am fodlonrwydd myfyrwyr**

(Arolwg Cendlaethol blynyddol y Myfyrwyr 2018)

## **95% o ymchwil y Brifysgol o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch**

(Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymwchil 2014)



# Helpu eich plentyn gyda' u penderfyniad

Gan fod yna amrywiaeth mor eang, mae dewis pa bwnc a chwrs i'w hastudio yn un o'r penderfyniadau anoddaf mae'n debyg sy'n wynebu myfyrwyr heddiw.



Mae'r prif bynciau rydym yn dysgu yma'n Aberystwyth yn cynnwys:

Cyfrifeg, Cyllid, Economeg, Marchnata, Busnes a Rheolaeth; Celfyddyd Gain a Hanes Celf; Gwyddorau Biolegol; Cyfrifiadureg; Drama, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; Addysg ac Astudiaethau Plentynod; Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol; Gwyddorau Amgylcheddol; Ieithoedd Ewropeaidd; Daearyddiaeth a Gwyddorau Daearyddiaeth; Hanes a Hanes Cymru; Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Y Gyfraith; Trosedddeg; Mathemateg; Ffiseg; Seicoleg; Amaethyddiaeth a'r Gwyddorau Gwledig; Biowyddorau Milfeddygol; Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff; Cymraeg, Cymraeg Proffesiynol, Gwyddeleg ac Astudiaethau Celtaidd.

**97% o'n graddedigion mewn gwaith neu astudiaethau pellach o fewn chwe mis wedi graddio.**

(HESA 2018)

Sut gallwch chi helpu

- Gwnewch yn siwr fod eich plentyn yn treulio digon o amser yn ymchwilio ac yn casglu gwybodaeth am bob un o'u dewisiadau.
- Ewch ar wefan UCAS ([www.ucas.com](http://www.ucas.com)) sydd ag adnodd chwilio cyrsiau arbennig sy'n rhestru'r holl gyrsiau sydd ar gael yn y DU yn ôl pwnc. Gan fod yna amrywiaeth mor eang, mae dewis pa bwnc a chwrs i'w hastudio yn un o'r penderfyniadau anoddaf mae'n debyg sy'n wynebu myfyrwyr heddiw.
- Ewch i weld y prifysgolion sydd o ddiddordeb i'ch plentyn, os gallwch chi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal Diwrnodau Agored, sy'n cynnig cyfle i chi siarad â rhai o'r staff a myfyrwyr sydd yno'n barod.
- Ymchwiliwch i'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau sydd ar gael. Bydd llawer o brifysgolion yn cynnig amryw o ffynonellau ariannol i helpu eich plentyn drwy gydol eu cwrs. Mae'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau fel rheol yn arian sy'n ychwanegol at y benthyciad, ac fel rheol nid oes rhaid talu'r arian yn ôl.

Lleolir Aberystwyth mewn ardal sy'n berffaith ar gyfer astudio daearyddiaeth, a chysiau cefn gwlad ac amgylcheddol. Nepell o Aberystwyth ceir mynyddoedd, y môr, aberoedd, coedwigoedd, twynni tywod a gorsdiroedd.



# Egluro rhai termau...

- Cynnig Amodol** Cynnig ag iddo amodau a osodir gan y brifysgol. Bydd angen i'ch plentyn gwrdd â gofynion y cynnig cyn bydd y Brifysgol yn eu derbyn (e.e. cael B yn Safon Uwch).
- Cynnig Di-amod** Cynnig pendant o le mewn prifysgol, heb amodau.
- Dewis Cadarn** O'r holl gynigion mae'ch plentyn wedi eu derbyn, h0n yw'r brifysgol y mae eich plentyn eisoes wedi dangos diddordeb pendant ynddi.
- Dewis wrth Gefn** Allan o'r cynigion a dderbyniwyd, hwn byddai ail ddewis eich plentyn, pe byddent yn methu â chwrrd ag amodau eu Dewis Cadarn.
- UCAS Apply** System ar-lein UCAS ar gyfer cyflwyno ceisiadau.
- Rhif Adnabod UCAS** Pan fydd eich plentyn yn gwneud cais am le mewn prifysgol drwy UCAS ar gychwyn y broses, byddant yn derbyn rhif adnabod UCAS - mae 10 digid i hwn ac mae'n unigryw i'ch plentyn. Cadwch y rhif hwn wrth law gan y byddwch ei angen sawl gwaith yn ystod y broses ymgeisio, ac yn enwedig os bydd eich plentyn yn mynd drwy'r broses Glirio neu Addasu.
- UCAS Track** Ar ôl i'ch plentyn gofrestru a chwblhau eu cais ar-lein trwy UCAS, byddant yn gallu dilyn hynt eu cais, gweld ac ymateb i gynigion, ac ychwanegu dewisiadau clirio drwy UCAS Track.
- Mynediad wedi'i ohurio** Os bydd eich plentyn yn cwblhau'r broses o wneud cais, ac wedi cael eu derbyn ar gwrs, ond yna yn penderfynu nad ydynt eisiau dechrau ym mis Medi, gallant ohirio (defer) eu mynediad i'r cwrs am flwyddyn. Gellir gwneud hyn i gael blwyddyn allan neu brofiad gwaith, er enghraifft.



# Astudiaethau israddedig yn Aberystwyth

Yma yn Aberystwyth rydym yn cynnig graddau sylfaen, anrhydedd sengl a chyfun, cyfuniadau prif bwnc/is-bwnc, a graddau Meistr Integredig ar draws ein pynciau. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n siŵr o'u hystyr, rydym wedi esbonio pob un ohonynt isod. Dyma fraslun o'r modd y gellir astudio cyrsiau yn Aberystwyth.



Yn gyffredinol, mae chwe math o radd ar gael yma yn Aberystwyth:

## Graddau Sylfaen

Mae'r graddau galwedigaethol yma, sydd fel arfer tua 2-3 mlynedd o hyd, yn cynnig hyfforddiant mwy galwedigaethol. Wedi ei chwblhau'n llwyddiannus, gall arwain at fynediad i flwyddyn olaf cwrs BSc mewn rhai pynciau. Gradd sy'n addas iawn os hoffech ddatblygu eich gwybodaeth neu ail-hyfforddi.

## Graddau anrhydedd Baglor gyda blwyddyn sylfaen

Mae'r graddau hyn wedi'u bwriadu ar gyfer ymgeiswyr sy'n chwilio am lwybr amgen i mewn i addysg uwch, ac maent yn cynnig blwyddyn o astudio paratoadol ar gyfer mynediad uniongyrchol i radd Baglor.

## Graddau Baglor anrhydedd sengl

Gallwch arbenigo mewn un pwnc penodol. Mae'r rhain fel arfer yn para 3 blynedd, er bydd myfyrwyr ieithoedd yn treulio blwyddyn ychwanegol dramor. Gellir astudio nifer o'n graddau dros gyfnod o 4 blynedd, gan gynnwys blwyddyn mewn gwaith neu flwyddyn yn astudio dramor.

## Graddau Baglor prif bwnc/is-bwnc

Mae'r graddau yma'n cynnig sylfaen gadarn mewn un ddisgyblaeth ynghyd â'r fantais o astudio un pwnc arall. Fel arfer mae'r rhain yn para 3 blynedd, a byddwch yn treulio dwy ran o dair yn astudio'ch prif bwnc, ac un rhan o dair yn astudio'r is-bwnc.

## Graddau Baglor anrhydedd cyfun

Mae'r rhain yn eich galluogi i astudio dau bwnc yn gyfartal, gan rannu'ch amser rhwng dwy adran wahanol. Mae ein dewis eang yn golygu y gallwch astudio pynciau cyfatebol, fel nad oes rhaid i chi ddewis rhwng eich hoff bynciau!

## Graddau Meistr Integredig

Mae'r rhain yn caniatâu i chi integreiddio tair blynedd o astudio israddedig gyda blwyddyn arall o astudio ar lefel uwchraddedig sy'n arwain at gymhwyster Meistr. Gallwch wneud cais am fenthyciad myfyrwyr dros bedair blynedd ar gyfer y graddau hyn, yn hytrach na chwilio am gyllid ar gyfer gradd Meistr ar ôl gorffen y radd gyntaf.

## Cymwysterau mynediad

Mae Prifysgol Aberystwyth yn gweithredu polisi mynediad cynhwysol sy'n rhoi gwerth ar ehangder yn ogystal â manylder yr astudio. Dewisir ymgeiswyr ar sail eu teilyngdod unigol, a gall y cynigion amrywio.

Dyma rai enghreifftiau'n unig o'r cymwysterau yr ydym yn eu derbyn:

- Safon Uwch
- BTEC (Lefel 3)
- Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru gyda Thystysgrif Her Sgiliau
- Diploma Mynediad i Addysg Uwch
- Cymhwyster Prosiect Estynedig
- Y Fagloriaeth Ryngwladol ac Ewropeaidd

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan.



# Dysgu drwy'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol yn cynnig cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ffyrdd hyblyg ac mewn ystod eang iawn o bynciau - y dewis mwyaf eang yng Nghymru! Gellir astudio rhai o'n graddau yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth yn addas iawn i fyfyrwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg yn ogystal â'r rheini sy'n llai hyderus neu'n ddysgwyr. Mae'n bosib astudio rhai modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg ar rai o'n cyrsiau cyfrwng Saesneg, ac mae gan bawb yr hawl i gyflwyno eu gwaith drwy'r Gymraeg hefyd!

O Ffilm i Ffiseg, o Droseddeg i Fioleg, ac o Gymraeg i Gyfrifiadureg, rydym yn falch dros ben o gynnig dewis sy'n amrywiol iawn ac sy'n cynnig dyfnder ar yr un pryd.

## Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydweithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, Cangen Aberystwyth oedd yr un gyntaf i'w chreu. Drwy ymaelodi â'r Coleg Cymraeg cei wybodaeth am gyfleoedd dysgu, digwyddiadau a gweithgareddau yn ogystal â dysgu mwy am Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg Cymraeg.

Fel myfyriwr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, cofia hefyd dy fod yn gymwys i dderbyn ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg a'r Brifysgol. Cynigir Prif Ysgoloriaethau'r Coleg ar gyfer dros gant o'n cyrsiau israddedig. I gael rhagor o wybodaeth, edrych fan hyn: [www.colegcymraeg.ac.uk](http://www.colegcymraeg.ac.uk) a [www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau](http://www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau)



## Addewidion Aber

- Cyfleoedd hyblyg i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob cyfadrn
- Gwarant o Diwtor Personol sy'n siarad Cymraeg
- Profiad gwaith dwyieithog
- Gwarant o lety cyfrwng Cymraeg
- Cyfleoedd i ddysgu neu wella'ch Cymraeg
- Aelodaeth o UMCA am ddim

# Dyfodol a gyrfa eich plentyn

Mae 99% o'n graddedigion sydd wedi astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg mewn gwaith neu astudiaeth bellach chwe mis wedi iddynt raddio (HESA 2018\*).

Wrth i statws yr iaith gael cefnogaeth mwy ffurfiol gan y Llywodraeth drwy sefydliad y Comisiynydd Iaith a pholisi Cymraeg 2050, ni fu erioed cymaint o alw am weithlu sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog.

Rhwng y ffaith ei fod yn ofynnol i fusnesau yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg, a bod nifer o fusnesau'n dechrau sylweddoli'r manteision i'w busnes o gynnig gwell darpariaeth i'w marchnad Cymraeg, bydd y gallu i weithio'n safonol drwy'r Gymraeg yn rhoi mantais fawr i rhai sy'n ystyried gweithio yng Nghymru. Tra bydd eich plentyn

yn Aberystwyth cânt nifer o gyfleoedd i greu cysylltiadau yn y byd gwaith tra'n astudio, ac mae'n bosib bod modd i rai myfyrwr nad ydyn nhw'n dilyn y cwrs Cymraeg Proffesiynol i astudio'r modiwl Cymraeg yn y Gweithle. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Changen y Coleg.

Byddai astudio Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd o fudd mawr, yn ogystal ag edrych ar wefan Gyrfa Cymru sydd â gwybodaeth a deunydd gwych arni.

Bydd ein Hymgyngorwyr Gyrfa yn rhoi cymorth i'ch plentyn i adnabod y sgiliau sydd ganddynt eisoes, a'u hannog i wneud y mwyaf o bob cyfle sydd ar gael yn Aberystwyth. Trwy ddsbarthiadau tiwtorial, sesiynau cynghori, darlithoedd wedi'u teilwra, a gweithdai (rhai gan gyflogwyr ar ymweliad), bydd yr Ymgynghorwyr yn cynorthwyo'ch plentyn i baratoi am yrfa yn y byd gwaith.

# Cefnogaeth i fyfyrwyr

Mae ein Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian i Fyfyrwyr yn rhoi cymorth ar amrywiaeth eang o faterion. Gall ein Hymgyngorwyr, sydd wedi'u hachredu gan NASMA (Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr), eich cynghori hefyd am unrhyw faterion yn ymwneud â llety, cynnydd academiaidd a gweithdrefnau'r Brifysgol.

## Gwasanaeth Hygyrchedd

Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i gynnal cymuned sy'n hygyrch i bawb a chroesewir ceisiadau gan fyfyrwyr anabl a'r rhai sydd â gwahaniaethau dysgu penodol. Gofynnwn i chi ystyried gofynion eich dewis cwrs ac unrhyw elfennau a allai achosi anawsterau penodol cyn gwneud cais. Rydym yn argymhell eich bod yn ymweld â'r campws a'r adran i ymchwilio i'r cymorth a allai fod ar gael. Byddai ein Hymgyngorwyr Hygyrchedd yn barod iawn i'ch helpu cyn i chi wneud cais. Rydym hefyd yn argymhell eich bod yn cysylltu â'r Ymgynghorwyr Hygyrchedd i drafod asesiad gofynion astudio ac i gael cyngor am grantiau megis y Lwfans Myfyrwr Anabl. I fyfyrwr sy'n gymwys, gall ein hymgyngorwyr drefnu gweithwyr cymorth, gan gynnwys cymorth sgiliau astudio un-i-un, ac mae'n bosibl y gall trefniadau arholiadau unigol fod ar gael i fyfyrwr sydd ag amrywiaeth o namau gan gynnwys gwahaniaethau dysgu penodol megis dyslecsia a dyspracsia. Gall ein Gwasanaeth Hygyrchedd hefyd roi cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal.

## Gwasanaeth Lles y Myfyrwr

Rydym yn gweithio'n agos â'r meddygon lleol, yr ysbyty a'r gwasanaethau iechyd meddwl, ac yn ymroddedig i gefnogi eich iechyd a'ch lles emosiynol trwy gydol eich astudiaethau.



## Mentora 'Ffordd Hyn'

Mae 'Ffordd Hyn' yn gynllun mentora gan gymheiriaid cyfeillgar i'r holl israddedigion newydd sy'n cynnig cyngor un-i-un, i helpu myfyrwyr newydd i ymgartrefu yn y Brifysgol, cynllunio ar gyfer eu dyfodol, a manteisio i'r eithaf ar eu cyfnod yn y Brifysgol.

## Nawdd Nos

Mae'r gwasanaeth gwranddo annibynnol hwn a gaiff ei redeg gan fyfyrwyr, i fyfyrwyr, yn darparu llinell gymorth, e-bost a gwasanaeth negeseua cyfrinachol, ewch i [www.nightline.aber.ac.uk](http://www.nightline.aber.ac.uk) i gael rhagor o wybodaeth.

## Cyngor ar wneud cais i brifysgol

Gall gwneud cais i brifysgol fod yn brofiad brawychus ond rydym yma i ateb eich cwestiynau waeth beth fo'ch pryderon. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch derbyn myfyrwr a'r meini prawf academiaidd cysylltwch â: [derbyn-israddedigion@aber.ac.uk](mailto:derbyn-israddedigion@aber.ac.uk)

## Cymorth dysgu

Fel aelod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, caiff eich plentyn fynediad i'r Porth adnoddau a chymorth dysgu Cymraeg ychwanegol. Byddant hefyd yn gallu dilyn neu gymryd Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. I gael mwy o wybodaeth ewch i wefan y Coleg.



# Cyfleoedd Byd-eang

**Mae Tim Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth gyffrous o opsiynau i chi fynd dramor fel rhan o'ch gradd - o gyrсияu byr i gyfleoedd gwirfoddoli yn yr haf, i semester llawn neu flwyddyn dramor yn astudio'ch pwnc dewisol yn un o'n prifysgolion partner.**

Mae'r brifysgol yn cynnig nifer o gyrсияu sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn astudio dramor yn ogystal, sy'n eich galluogi i astudio yn un o'n prifysgolion parter yn Ewrop neu mewn rhan arall o'r byd am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd blwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn derfynol ac I raddio.

Mae adroddiadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy na'u cyfoedion. Cymrwch fantais o'r cyfle unigryw hwn i wella eich sgiliau allweddol trwy ddewis astudio dramor.

## Myfyrwyr ieithoedd

Mae myfyrwyr sy'n astudio mwy nag un iaith yn Aberystwyth yn treulio blwyddyn ychwanegol yn astudio neu'n gweithio dramor. Mae'r cyfnod yn byw dramor yn gwella rhuglder a hyder yn yr ieithoedd a ddewisir ac yn ymdrwytho myfyrwyr yn niwylliant y wlad.

## Myfyrwyr ieithoedd

Bydd myfyrwyr sy'n astudio un neu ragor o ieithoedd yn Aberystwyth yn treulio blwyddyn ychwanegol yn astudio/gweithio dramor, fel y gallant ymdrwytho'n llwyr yn yr iaith y maent yn ei hastudio. Bu Ryan Kennedy yn astudio Ffrangeg ac Eidaleg yn Aberystwyth, a dyma ddetholiad o'i flog am ei deithiau:

"Mae Padova yn llawn piazzas, bariau a siopau coffi hyfryd, marchnadoedd bwyd a blodau lliwgar, a phensaerniaeth drawiadol. I mi, roedd cael byw la dolce vita yn y dref odidog hon yng ngogledd yr Eidal fel gwireddu breuddwyd - wedi'r cyfan, rhaid bod pawb ohonom, rywbryd, wedi breuddwydio am gael sipian aperitivo dan haul tanbaid mewn hen piazza bendigedig, neu fynd i Fenis am y diwrnod am y rheswm syml bod hynny'n bosibl! O'r eiliad y cyrhaeddais i, fe wirionais ar bopeth ynglŷn â'r lle. Fe ddechreuon ni erasmini (oes, mae gan yr Eidalwyr enw ar y myfyrwyr Erasmus - dyna

pa mor ffasiynol ydyn nhw!) y semester pan oedd Padova dan eira, ac fe wnaeth hynny ein hannog ni i gyd i fynd i'r piazza i dynnu lluniau, cyn bwyta pitsas poeth ac yfed Aperol spritz mewn caffi oedd yn cael ei redeg gan ferch o Gymru!

Mae'r atgofion yma, y bobl y byddwch chi'n cwrdd â nhw a'r llefydd a welwch chi, yn bethau fydd yn aros gyda chi am byth, a'r unig bethau rwy'n eu difaru yw peidio gweld hyd yn oed mwy nag a welais i a pheidio manteisio ar y cyfle i ddysgu mwy gan yr Eidalwyr am sut i wisgo!

Mae mynd dramor yn eich newid chi'n llwyr, a gallaf eich sicrhau y bydd eich calon yn llawn atgofion hyfryd pan ddewch adref. Mae gennyf lyfrau'n llawn lluniau o'r llefydd hardd yr ymwelais â nhw a'r ffrindiau gwych y cwrddais â nhw ac, i grynhoi, byddwn yn mynd dramor ac yn gwneud y cyfan eto heb feddwl eilwaith!"



# Ffioedd dysgu a chymorth ariannol

## Yn Aberystwyth, rydym yn cynnig pecyn hael o ysgoloriaethau a bwrsariaethau gwerth miloedd o bunnoedd i gynorthwyo'n myfyrwr yn ariannol.

Nid yw'r ffioedd dysgu ar gyfer mynediad yn 2020/21 wedi'u cadarnhau eto. I fyfyrwr Cartref/UE a gofrestrodd ar gyrsiau TAR a chyrtsiau israddedig amser llawn a oedd yn dechrau ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Medi 2019, y ffioedd oedd £9,000.

### Ysgoloriaeth astudio drwy'r Gymraeg

Mae 99% o'n graddedigion sydd wedi astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg mewn gwaith neu astudiaeth bellach chwe mis wedi iddynt raddio (HESA 2018\*). Mae Prifysgol Aberystwyth felly'n falch o gynnig Ysgoloriaethau i annog myfyrwr i astudio drwy'r Gymraeg.

- **Uwch Ysgoloriaeth** - £250 y flwyddyn (am gymryd o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn)
- **Ysgoloriaeth Annog** - £100 y flwyddyn (am gymryd hyd at 39 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn)

Nid oes rhaid ymgeisio am yr Ysgoloriaethau hyn - bydd y sawl sy'n cofrestru ar fodiwlau cymwys yn derbyn y taliad yn awtomatig. Bydd manylion y modiwlau cymwys ar gael wrth gofrestru ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

Gellir derbyn yr ysgoloriaeth yma ar y cyd ag ysgoloriaethau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

### Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn cynnig ysgoloriaethau gwerthfawr, os bydd eich plentyn yn astudio rhan neu'r cwbl o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Am yr wybodaeth ddiweddaraf ewch i'w gwefan:

[www.colegcymraeg.ac.uk](http://www.colegcymraeg.ac.uk)

### Cymorth gyda chostau byw

Yn Aberystwyth, rydym yn deall y gall cyllidebu fod yn anodd ac rydym yn ymroddedig i gynghori myfyrwr gymaint ag y gallwn. Gall y Ganolfan Croesawu Myfyrwr ac Undeb y Myfyrwr gynnig cyngor am gyllidebu a ble i ddod o hyd i waith rhan-amser yn ystod y gwyliau neu yn ystod yr astudiaethau.

### Ffynonellau cyllid eraill

Mae'n bosibl y bydd modd cael cyllid ychwanegol o rywle arall. Gall hyn gynnwys nodd, gweithio'n rhan-amser, neu roddion elusenol. Mae'n bosibl y gall myfyrwr anabl fod yn gymwys am Lwfans Myfyrwr Anabl sy'n cynnig amrywiaeth o gymorth ariannol, ac mae'n bosibl bod grant ychwanegol ar gael ar gyfer costau teithio. I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Llywodraeth.

 01970 622065

 [www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau](http://www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau)

 [www.aber.ac.uk/cy/student-finance](http://www.aber.ac.uk/cy/student-finance)

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ein ffioedd, edrychwch ar ein gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth am y benthyciadau a'r grantiau sydd ar gael, ewch i wefan cyllid myfyrwr y llywodraeth:

[www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk)

# Ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau

Cynigir nifer o ysgoloriaethau sy'n agored i holl fyfyrwr y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys gwobrau academaidd, er enghraifft cystadleuaeth yr Ysgoloriaethau Mynediad, ysgoloriaethau chwaraeon a cherddoriaeth, ysgoloriaethau i gefnogi rhai sy'n gadael gofal a grwpiau cysylltiedig, ac ysgoloriaethau i fyfyrwr sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd yn cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwr Ewropeaidd a rhyngwladol.

Fe allwch ddal mwy nag un o'r gwobrau hyn gyda'i gilydd, i wneud eich pecyn ariannol yn fwy gwerthfawr. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn rydyn ni'n ei gynnig.

### Ysgoloriaethau Mynediad

**Gwerth hyd at £2,000 y flwyddyn.**

Mae Ysgoloriaethau Mynediad a Gwobrau Teilyngdod yn cael eu dyfarnu ar sail eich perfformiad mewn dau arholiad, awr a hanner yr un, a osodir gan y Brifysgol. Gellir eu dal ar gyfer unrhyw gynllun gradd. Mae myfyrwr sy'n dal ysgoloriaeth yn cael y cyfle i fyw yn llety'r Brifysgol trwy gydol eu cyfnod israddedig. Gall ymgeiswyr da hefyd gael gostyngiad o ran eu cynnig.

### Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd

**Gwerth hyd at £2,000 yn y flwyddyn gyntaf.**

I wobrwyo rhagoriaeth academaidd a gyflawnwyd cyn dechrau yn y Brifysgol, mae'n bleser gennym gynnig Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd i ymgeiswyr o'r Deyrnas Gyfunol/ Undeb Ewropeaidd sy'n rhoi Aberystwyth yn ddewis Cadarn trwy UCAS ac sy'n ennill o leiaf AAA yn yr arholiadau Safon Uwch (neu DDD yn y Ddiploma Estynedig Lefel 3 BTEC, neu 36 o

bwyntiau yn y Fagloriaeth Rhyngwladol; ewch i'w gwefan am restr o gymwysterau eraill rydym yn eu derbyn).

### Ysgoloriaethau Chwaraeon

**Gwerth £500 y flwyddyn, ac aelodaeth Blatinwm am ddim o Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol, a sicrwydd llety dros gyfnod y cwrs.**

Mae'r Ysgoloriaethau Chwaraeon ar gyfer ymgeiswyr i'r Brifysgol sy'n gallu dangos cyflawniad diweddar o safon uchel mewn chwaraeon, ac ymrwymiad i ddatblygu eu perfformiad chwaraeon yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol. Gallwch ddal Ysgoloriaeth Chwaraeon ar unrhyw gws amser llawn yn y Brifysgol.

### Ysgoloriaeth Prifysgol Aber/Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth

**Gwerth hyd at £4,000 y flwyddyn, yn ogystal â manteision ychwanegol.**

Ysgoloriaeth i ddynion o'r Deyrnas Gyfunol sy'n gwneud cais i astudio'n amser llawn am radd ym Mhrifysgol

Aberystwyth. RHAID i'r ymgeiswyr fod wedi chwarae pêl-droed yn Uwch Gynghrair Cymru neu ar safon gyfatebol.


### Ysgoloriaethau Cerdd

**Gwerth £650 y flwyddyn, aelodaeth am ddim o ensemblau'r Ganolfan Gerdd, defnydd am ddim o ystafelloedd ymarfer, llyfrgelloedd ac adnoddau eraill addas y Ganolfan Gerdd, a sicrwydd o le yn llety'r Brifysgol dros gyfnod y cwrs.**

Mae'r Ysgoloriaethau Cerdd wedi'u hanelu at offerynwyr cerddorfaol profiadol a all gyfrannu'n weithredol i gerddorfeydd, bandiau ac ensemblau'r Brifysgol. Cânt eu dyfarnu ar sail clyweliad cystadleuol.

**Mae nifer o ysgoloriaethau eraill i'w cael, gan gynnwys Bwrsariaethau Gadael Gofal, gwobrau adrannol, ac ysgoloriaethau os ydych yn ystyried astudio eich cwrs yn rhannol/yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. I gael rhagor o fanylion ewch i'w gwefan.**

# Prifysgol Aberystwyth



Llety Myfyrwr



Cyfleusterau Academaidd



Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Cyfleusterau Academaidd



Canolfan y Celfyddydau



Undeb y Myfyrwr



Cyfleusterau Academaidd



Llyfrgell Gwyddorau Ffisegol



Canolfan Chwaraeon



Llyfrgell


Adeilad newydd Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ar Gampws Penglais yw canolfan weinyddol yr adran, ac mae yno hefyd gaffi. Drws nesaf iddo mae adeilad Edward Llwyd, lleoliad y prif labordd a'r ystafelloedd dysgu.



Yr adeilad hwn yw lleoliad yr adrannau Astudiaethau Gwybodaeth, Seicoleg, ac Addysg ac Astudiaethau Plentyndod.



Mae Adeilad y Gwyddorau Ffisegol yn gartref i'n hadrannau Mathemateg a Ffiseg, yn ogystal â Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol.




Yn adeilad Hugh Owen lleolir yr Ysgol Fusnes, a'r adrannau Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, y Gyfraith a Throsedddeg, ac Ieithoedd Modern, yn ogystal â phrif lyfrgell y Brifysgol.



Yr adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.



Adeilad Parry Williams yw cartref Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, ac Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu'r Brifysgol.



Yn adeilad Llandinam mae ein hadrannau Daearyddiaeth a Gwyddorau Daeiar, a Chyfrifiadureg.



# Llety

Rydym yn cynnig amrywiaeth o fathau a lleoliadau fel y gallwch ddod o hyd i'r ardal sy'n addas ar eich cyfer chi, gyda'r mwyafrif o neuaddau o fewn rhai munudau ar droed o'r campws.



Mae pob llety yn gymuned ag iddi ei nodweddion penodol ei hun, ac yn cynnig amgylchedd diogel lle gallwch gymdeithasu, astudio ac ymlacio. Pan fyddwch yn byw yn ein llety does dim angen pryderu am gostau cyfnewidiol gan fod y ffoedd neuadd yn cynnwys taliadau trydan ac yn y blaen, cysylltiad di-wifr, a lefel uchel o yswiriant eiddo personol.










Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o lety hunanarlwyo neu ranol-arlwyol gyda naill ai ystafelloedd en-suite, neu fflatiau gydag adnoddau a rennir ynghyd â'n stiwdios hunan-gynhwysol, ac mae'r prisiau'n amrywio rhwng tua £85-£135 yr wythnos. Beth bynnag yw'ch gofynion, fe geisiwn ddarparu'r dewis mwyaf addas ar eich cyfer ac rydym bob amser yn ymdrechu i glustnodi uwchraddedigion i fflatiau/tai gyda'i gilydd.

Cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd, bydd y Tim Bywyd Campws yn eich croesawu i'ch cartref newydd a chymuned y campws.

## Gwneud cais am lety

Ar ôl i chi fodloni amodau eich cynnig academiaidd, byddwn yn anfon gwahoddiad atoch i wneud cais am lety trwy e-bost a'r post. Rydym yn eich cyngori i gwblhau'r cais cyn gynted â phosibl, oherwydd mae'r llety'n cael ei rannu ar sail 'y cyntaf i'r felin'.

## Allwedd

-  Band pris
-  Caffi
-  Cawod en-suite
-  Golchdy
-  Wi-Fi
-  Llety Cymraeg penodedig
-  Mannau cymdeithasu ac astudio
-  Parcio
-  Canolfannau Dysgu



**Sicrwydd llety yn y flwyddyn gyntaf\*.**



**Aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon yn rhad ac am ddim.**

*\*\*I fod yn gymwys am warant o le rhaid i chi sicrhau bod eich cais yn cael ei dderbyn erbyn 1 Awst yn y flwyddyn mynediad a'ch bod yn ymateb i'r cynnig o lety erbyn y dyddiad olaf a nodir yn y Cynnig Llety. Nodwch fod lle mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol neu a reolir ganddi yn cael ei warantu ond nid y math penodol o ystafell neu leoliad.*

# Hunanarlwyo



# Hunanarlwyo



## Fferm Penglais



- flatiau penodedig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith
- ystafelloedd en-suite, mewn flatiau i 6-8 myfyriwr sy'n rhannu cegin/ardal fyw
- stiwdios sengl hunangynhwysol hefyd ar gael
- siop a chaffi ar y safle, ynghyd â manau cymdeithasu ac astudio
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais
- £139.97 yr wythnos (40 wythnos)\*- ystafell ensuite
- £146.58 yr wythnos (40 wythnos)\*- stiwdio



## Cwrt Mawr



- ystafelloedd sengl, mewn flatiau o 6-10 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol, a cegin llawn cyfarpar
- defnydd o ganolfannau dysgu ar Gampws Penglais
- wedi'i leoli ar Gampws Penglais
- £85.40-£95.41 yr wythnos (39 wythnos)\*



## Pentre Jane Morgan



- ystafelloedd sengl, mewn tai i 5 neu 6 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@PJM
- 5 munud ar droed o Gampws Penglais
- £105.63 yr wythnos (39 wythnos)\*





# Hunanarlwyo



# Arlwyo Cyfrwng Cymraeg



## Trefloyne



- ystafelloedd sengl, mewn fflatiau i 7 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- wedi'i leoli ar Gampws Penglais
- £95.41 yr wythnos (39 wythnos)\*

## Pantycelyn



- ystafelloedd sengl, en-suite, mewn fflatiau i hyd at 8 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- wedi'i leoli ar Gampws Penglais



## Rosser



- ystafelloedd sengl, en-suite, mewn fflatiau i hyd at 8 myfyriwr
- rhannu adnoddau cymunedol
- defnydd o Lolfa@Rosser
- wedi'i leoli ar Gampws Penglais
- £117.18 yr wythnos (39 wythnos)\*



Artist's impression of a representative bedroom in Pantycelyn.



# UMCA

## Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth



**Os ydych chi am fyw ac/neu astudio yn Gymraeg yma yn Aberystwyth, chewch chi ddim profiad cyflawn o'r gymuned glòs sydd yma heb ymuno ag UMCA neu'r Geltaidd, neu'r ddau!**

UMCA yw'r undeb gyntaf o'i bath yng Nghymru, ac mae ganddi brofiad helaeth o ymgyrchu dros fuddiannau myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol a gwarchod eu hawliau. Erbyn heddiw, mae'n fudiad dylanwadol iawn sydd â llais a chynrychiolaeth ar rai o brif bwyllgorau'r Brifysgol.

### Gweithgareddau

Mae UMCA yn cefnogi nifer o gymdeithasau Cymraeg eraill poblogaidd megis y Geltaidd (prif gymdeithas chwaraeon Cymraeg Prifysgol Aberystwyth), Plaid Cymru Ifanc, Yr Heriwr ac Aelwyd Pantycelyn i'r rheiny ohonoch sy'n mwynhau canu, llefaru, dawnsio neu gloccio.

Trefnir nifer o weithgareddau gan UMCA ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae Llywydd a Swyddog Amgen Pwyllgor Gwaith UMCA yn cydweithio'n agos â'r Coleg er mwyn sicrhau bod gennym amryw o weithgareddau sydd at ddant pawb.

### UMCA a'r Gymraeg

Nid yn unig ar gyfer siaradwyr Cymraeg y mae UMCA. Cynigia UMCA hefyd wersi Cymraeg am ddim i fyfyrwyr ac wrth ymuno ag UMCA gall yr aelodau ddysgu am iaith a diwylliant Cymru.

### Llais y myfyrwyr

Etholir Llywydd UMCA gan gorff cyfan Myfyrwyr y Brifysgol yn etholiadau blynyddol yr Undeb, ac mae'n swydd sabothol amser

llawn. Mae gan y Llywydd bwyllgor gwaith gweithgar iawn y tu cefn iddo/iddi ynghyd â Bwrdd Ymgynghorol i graffu ar weithgaredd UMCA.

### Cefnogaeth

Mae UMCA yn cynorthwyo myfyrwyr i wneud yn fawr o'u hamser yn Aberystwyth ac yn cynnig cymorth gydag unrhyw broblem sy'n poeni'r aelodau. Mae UMCA yn ychwanegu at brofiad myfyrwr o fyw trwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth.

### Llywyddiannau Eisteddfodol

Bob blwyddyn mae myfyrwyr o Aberystwyth yn amlwg ar lwyfan eisteddfodau, yn enwedig Eisteddfod yr Urdd. Mae ein myfyrwyr yn aml yn dod i'r brig un ai fel unigolion neu fel grwpiau a chorau mewn meysydd fel llenyddiaeth, canu, dawnsio a pherfformio.

### Wythnos y Glas

Pan gyrhaeddych y Brifysgol ym mis Medi, cewch brofi Wythnos y Glas - wythnos gyfan o hwyl a chymdeithasu a drefnir gan UMCA. Bydd myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn yn aml yn cael eu 'paru' â myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar rai o'r gweithgareddau, sy'n golygu y byddwch yn dod i adnabod trawsdoriad eang o fyfyrwyr erbyn diwedd yr wythnos gyntaf!



Côr Aelwyd Pantycelyn.



Tîm pêl-droed bechgyn y Geltaidd.



Tîm rygbi merched y Geltaidd.

# Chwaraeon a chymdeithasau

Undeb y Myfyrwyr yw cartref Tim Aber, gyda chlybiau chwaraeon cystadleuol, a rhai nad ydynt yn gystadleuol, i bobl o bob gallu, a dros 100 o glybiau a chymdeithasau. Dylai pawb allu canfod diddordeb newydd sy'n apelio, neu ddatblygu diddordeb sydd ganddynt eisoes. Ac os nad oes clwb neu gymdeithas ar gyfer eich diddordeb chi, ewch ati i sefydlu un!

## Y celfyddydau

- Cymdeithas Ffotograffiaeth Aber
- Y Gymdeithas Gelf
- Broad-Ways Theatre and Film
- Curtain Call
- Elizabethan Madrigal Singers
- Nomadic Players

## Cymuned

- Aber Pride
- Aberystwyth LINKS St John - Cymru Wales
- GradSoc (Cymdeithas y Graddedigion)
- Co-op Bwyd Organig
- SSAGO (Y Sgowtiaid a'r Geidiaid)
- VegSoc

## Ieithoedd a diwylliannau

- AberBSL (Iaith Arwyddion Prydain)
- Y Gymdeithas Affricanaidd-Garibiaidd
- Cymdeithas Erasmus ac Ieithoedd Ewropeaidd
- Y Gymdeithas Almaenig
- Y Gymdeithas Myfyrwr Byd-eang

- Y Gymdeithas Eidalaid
- Y Gymdeithas Falaysiaidd
- Y Gymdeithas Nordig
- UMCA

## Yr amgylchedd

- Cymdeithas Cynaliadwyedd Aberystwyth
- Y Gymdeithas Cadwraeth Gwenyn
- Gwirfoddolwyr Cadwraeth (ACV)

## Codi arian/ymgyrchu

- Aber Marrow
- Aber WWF
- Marie Curie
- Cymdeithas Oxjam
- Student Minds Aberystwyth
- Tickled Pink

## Gemau

- Y Gymdeithas Cardiau
- Clwb Gwyddbwyll
- Cymuned Chwarae Gemau
- Kaotica Wargames
- Pokemon GO
- WARPSoc

## Perthnasol i adrannau/cyrsiau

- AberCompSoc
- Y Gymdeithas Awyrodol
- Y Gymdeithas Amaeth
- Y Gymdeithas Biocemeg
- Troseddeg
- Y Gymdeithas Gemau Argyfwng a Model o'r CU
- Y Gymdeithas Drafod
- Y Gymdeithas Addysg
- Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
- Daearyddiaeth
- Y Gymdeithas Datblygu Byd-eang
- Hanes
- Gwleidyddiaeth Ryngwladol
- Cymdeithas y Gyfraith
- Y Gymdeithas Forol
- Y Gymdeithas Fathemateg
- Y Gymdeithas Ffiseg ac Astronomeg
- Y Gymdeithas Seicoleg
- Roboteg
- Y Gymdeithas Swlog

## Diddordebau a chredoau

- Cŵn Aber
- Cymdeithas AberHowl
- Cyfryngau Myfyrwr Aber
- AberPara (Cymdeithas Oruchnaturiol Aberystwyth)
- Cymdeithas Pong Cwrw Aberystwyth
- Cymdeithas Cartwnau a Chomics Aberystwyth
- Cymdeithas Ffilm a Theledu Prydeinig
- Y Gymdeithas Gatholig
- Yr Undeb Gristnogol
- Ffantasi a Gwyddonias
- Y Gymdeithas Ffeministaidd
- Y Gymdeithas Ail-greu Canoloesol
- Nawdd Nos
- Y Gymdeithas Cwrw Go Iawn

## Cerddoriaeth

- Abercoustic
- Cymdeithas Kpop
- Roc Soc

## Gwleidyddol

- Y Gymdeithas Geidwadol
- Myfyrwr Llafur

- Rhyddfrydwyr Ifanc a Myfyrwr
- Y Gymdeithas Union and Liberty
- Yes Myfyrwr

## Chwaraeon

- Aber Archers (saethyddiaeth)
- Clwb Pŵl Aber
- Aber Snow
- AberCycling
- Ffitrwydd Awyr (athletau)
- Clwb Aikido
- Airsoft
- Badminton
- Pêl-fasged
- Canwio a Chaiao
- Ogofa
- Saethu Colommenod Clai
- Criced
- DanceSport
- Cynghrai Bêl-droed y Digs
- Pêl-osgoi
- Clwb Marchogaeth
- Teithiau
- Cleddyfa
- Pêl-droed
- Futsal
- Golf
- Clwb Athletau a Rhedeg yr Harriers

- Clwb Cerdded
- Clwb Hoci
- Kalah System
- Karate
- Cic-focsio
- Korfball
- Lacrosse
- Beicio Mynydd
- Clwb Mynydd
- Pêl-rwyd
- Dawnsio Stryd y Panthers
- Rygbi (y gynghrai a'r undeb)
- Hwyltio
- Showdance
- Slacklinking
- Sboncen
- Clwb Rhwyfo'r Myfyrwr
- Tanddwr
- Y Clwb Syrffio
- Nofio a Pholo Dŵr
- Tennis Bwrdd
- Clwb Pêl-droed Americanaidd Tarannau Aberystwyth
- Codwyr Hwyl y Tarannau
- Tennis
- Clwb Triathlon
- Hoci Tanddwr (Octopush)
- Pêl-foli
- Y Gymdeithas Reslo
- Y Gymdeithas loga

# Y Ganolfan Chwaraeon

Mae'r Ganolfan Chwaraeon yn cynnig pob math o gyfarpar ac adnoddau i hyrwyddo'ch iechyd a'ch lles. O'r pethau sylfaenol, gan gynnwys campfa, melinau troedio, a phwll nofio, i'r pethau ychwanegol, sy'n cynnwys ystafell codi pwysau i ferched yn unig, a sawna.

Os nad oes awydd arnoch ymarfer corff ar eich pen eich hun gallech ymuno ag un o'r dewis helaeth o ddsbarthiadau a gynhelir yma. Bydd y cwbl ar gael i chi'n rhad ac am ddim wrth defnyddio'r cerdyn aelodaeth Platinwm byddwch yn ei gael os ydych yn byw yn un o'n neuaddau preswyl.



# Canolfan y Celfyddydau

Dyma'r lle delfrydol i weld sioe neu ffilm, mwynhau danteithion, prynu'ch llyfrau a chymdeithasu. Mae yma rywbeth at ddant pawb, o sioeau teithiol o'r 'West End' a'r ballet, y filmau diweddaraf ac arbenigol, amryw o wyliau; i rai o enwau mwyaf y byd comedi, sioeau Nadolig a'r ffair fwyd a chrefftau flynyddol.

Mae ein Canolfan Gelfyddydau arobryn ar y campws yn croesawu perfformiadau gan gwmnïau teithiol cenedlaethol a rhyngwladol o bwys, yn ogystal â llwyfannu ei chynyrchiadau mewnol ei hun. Cyflwynir y perfformiadau yn neuadd gyngerdd y Ganolfan sy'n dal 1,200 o bobl, yn y theatr sy'n dal 300, ac yn y stiwdio, sy'n llai o faint, tra bod rhaglen brysur o ddangosiadau ffilm yn y sinema 120 sedd.



## Y Ganolfan Gerdd

Mae'r Ganolfan Gerdd yma i bob myfyriwr. Pa bynnag bwnc rydych yn astudio, gallwch fod yn rhan o gymuned gerddorol egnïol yn nghanol Aberystwyth. Wedi'i lleoli yn Hen Goleg ar lan y môr, mae'r Ganolfan Gerdd yn cynnig amrywiaeth o ensemblau cerddorol, yn cynnwys Cerddorfa Symffoni, Band Cyngerdd, côr mawr, a grŵp gitâr, llinynnau a grwpiau bach eraill. Mae llefydd i grwpiau ac unigolion ymarfer yn ogystal. Mae pob ystafell ymarfer yn cynnwys piano a golygfa o'r môr ac yn rhoi'r cyfle i chi barhau â'ch cariad at gerddoriaeth, pa un a ydych yn chwarae offeryn neu'n canu. Mae gennym dîm o diwtoriaid offerynnol a lleisiol hefyd a gallwn drefnu tiwtora unigol os dymunwch ddatblygu eich sgiliau cerddorol ymhellach. I'r rhai ohonoch sy'n canu ac yn chwarae ar lefel uwch, mae'r Ysgoloriaeth Gerdd hefyd yn opsiwn ac fe'i dyfernir ar sail clyweliad cystadleuol.



## Bwyd a Diod ar Campws



Mae ein baristas, ein gweinyddion a'n cogwyddion yn barod ar eich cyfer yn ein hamrywiaeth eang o fwyta a chaffis arobryn - ac mae digonedd o ddewis ar eich cyfer.

Yn ein holl fwyta a'n chaffis, rydym yn ymfalchio mewn cynnig cynnyrch o ansawdd uchel, wedi'i brynu mewn modd cyfrifol, am bris fforddiadwy. Ein nod yw diwallu holl anghenion diwyllianol, maethgol a dietegol ein myfyrwyr, gan gynnwys bwyd llysieuol, figan, di-glwten, halal a heb lactos.

Pryd bynnag y byddwch ar y campws gallwch fwynhau brecwast, cinio a swper blasus yn y prif fwyta, neu ddewis eang o fyrbrydau ysgafn, bwyd i fynd a diodydd poeth ac oer yn ein chaffis a'n siopau. Gallwn hefyd ddanfôn bwyd i holl neuaddau'r campws o Nosh Da yn Undeb y Myfyrwyr.

Mae gan ein gwasanaethau arlwyio statws Masnach Deg, mae gennym ein Polisi Bwyd Cynaliadwy ein hunain ac rydym yn rhan hanfodol o fenter y Brifysgol gyfan a gynorthwyodd Brifysgol Aberystwyth i ennill statws Dim Plastig - y brifysgol gyntaf yn y byd i wneud hynny.

Mae'r myfyrwyr yn cael disgownt o 10% wrth brynu bwyd neu ddiodydd poeth yn ein bwyta a'n chaffis a gellir arbed rhagor o arian gyda'n cardiau teyrngarwch a thrwy ddefnyddio cwpanau amlddefnydd. Mae talu gyda'ch cerdyn myfyriwr Aberystwyth yn ffordd rwydd o osgoi gorffod cario arian parod, a gallwch roi credyd ar eich cerdyn ar-lein neu trwy ApAber. Rydym yn cynnig cynlluniau prydau hyblyg sy'n eich galluogi i drefnu eich arian o ran anghenion arlwyio fesul tymor neu flwyddyn.

### Lleoedd i fwyta ar Campws Penglais

- Canolfan y Celfyddydau (yn cynnwys Coffi Coal Town)
- IBERbach
- Tamed Da & Tamed Bach (yn cynnwys Starbucks)
- Sguborfach (yn cynnwys Starbucks)
- Undeb y Myfyrwyr (yn cynnwys Siop y Myfyrwyr)



# Dysgu gydol oes



Yn rhan sefydledig o gymuned Aberystwyth, mae'r Brifysgol yn cynnig ystod eang o gyrсияu byr/modiwlau sydd ar gael am ddim i'n holl fyfyrwyr, ac y gallwch eu hastudio ochr yn ochr â'ch cwrs.

Mae ein canolfan Dysgu Gydol Oes yn cynnal dosbarthiadau yn ystod y dydd a gyda'r nos ym maes celf a dylunio, y dyniaethau, ieithoedd, ecoleg a chadwraeth, ffotograffiaeth a seicoleg. Gallwch ddysgu sut i ddarlunio, winio, astudio eich coeden deulu, a dysgu am ecoleg, bywyd gwyllt a'r amgylchedd, a mwy. Gallwch hefyd ddysgu Tsieineeg, Siapaneg, Rwsieg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Sbaeneg a Chymraeg.

Yn Aberystwyth gallwch fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn i wella eich sgiliau a datblygu diddordebau newydd a fydd yn eich gwneud yn fwy atyniadol i gyflogwyr wedi ichi orffen eich gradd, gan olygu y byddwch gam ar y blaen i'r rhai sy'n cystadlu yn eich erbyn.

Am ragor o wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael chwiliwch am 'dysgu gydol oes Aberystwyth' ar-lein.

“ Mae'r gwersi'n cael eu dysgu mewn amgylchedd cyfeillgar sy'n llawn anogaeth a chefnogaeth, ac mae'r iaith yn cael ei chyflwyno ar gyflymder cyfforddus. ”

“ Amgylchedd dysgu arbennig o dda, addysgu rhagorol a digon o gyfle am drafodaethau dosbarth. ”



# Cydraddoldeb ac amrywioldeb ym Mhrifysgol Aberystwyth

Yn Aberystwyth rydyn ni'n falch iawn o'n cymuned glos, ac er ei bod yn dref gymharol fach, mae yma amrywiaeth fawr o bobl. Mae myfyrwyr o bob mathau o ddiwylliannau a chredoau yma, o bob cwr o'r byd. Cewch gyfle i roi cynnig ar wahanol bethau, gwneud ffrindiau newydd, ac yn bwysicaf oll, cyfle i fod yn chi eich hun.

## Gwirfoddoli

Pa un a ydych yn dymuno gweithio o fewn y gymuned o fyfyrwyr, gydag elusennau lleol neu eisiau codi arian, mae yma ddigonedd o gyfleoedd i wirfoddoli o fewn y Brifysgol a'r dref. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig gwasanaeth gwirfoddoli i gallwch ei defnyddio i ddod o hyd i gyfleoedd ac i gofnodi eich oriau i gyfrannu at wobwr flynyddol.

## Aber Werdd

Efallai ei bod hi'n naturiol bod tref glan-y-môr yn awyddus iawn i ofalu am ei hamgylchedd. Yma gallwch fod yn rhan o nifer o ymgyrchoedd, mentrau a gweithgareddau sy'n gwneud eu rhan i ddiogelu'r amgylchedd. O lanhau'r traethau i ymgyrchoedd di-blastig, rydych chi'n sicrhau o ddod o hyd i rywbeth sy'n mynd â'ch bryd.

## LGBT

Mae i Brifysgol Aberystwyth awyrgylch gefnogol, gynhwysol a diogel ble gallwch ddarganfod eich hunaniaeth. Mae AberBalch, cymdeithas i fyfyrwyr, yn trefnu digwyddiadau rheolaidd, digwyddiad mawr blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn, a nosweithiau cymdeithasol wythnosol. Mae gan y Brifysgol hefyd rwydwaith staff LGBTA ac mae wedi'i henwi gan Stonewall ymhlith y 100 cyflogwr gorau yng Nghymru.





# Rhagoriaeth ymchwil

Mae ein rhagoriaeth mewn ymchwil yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd. Mae 95% ohono o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2014).

Gan amrywio o'r newid yn yr hinsawdd, ansawdd a dulliau cynhyrchu bwyd, i iechyd dynol a chynorthwyo i hyrwyddo teithiau gofod, mae ein hymchwilyr ar y rheng flaen ac mae buddiannau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol wedi deillio o ddylanwad ac effaith ein hymchwil.



# Oeddet chi'n gwybod?

## Gwyddorau Biolegol

Bu i'n hymchwilyr greu casgliad o adnoddau genetig *Miscanthus* - cnwd ynni byd-eang.



## Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Oeddech chi'n gwybod mai un o raddedigion Aberystwyth, Sharon Maguire, gyfarwyddodd ffilmiau cyntaf ac olaf cyfres *Bridget Jones's Diary*?



## Cyfrifiadureg

Oeddech chi'n gwybod mai Jan Pinkava, un o raddedigion yr Adran Gyfrifiadureg gyfarwyddodd *The Incredibles* ac a gyd-gyfarwyddodd ffilm *Ratatouille* Pixar, a enillodd Oscar?



## Y Gyfraith

Mae ein hymchwil wedi helpu i atal masnachu pobl yn Romania.

## Daearyddiaeth

Oeddech chi'n gwybod bod rhewlif yn yr Antarctic wedi ei enwi ar ôl un o rewlifegwyr Aberystwyth? Efallai i chi glywed amdano - Rhewlifeg Glasser.



Llun gan Dr Bethan Davies

## Ffiseg

Oeddech chi'n gwybod bod ein Hadran Ffiseg yn rhan o bob un o deithiau planedol yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd (yr ESA) yn amrywio o'r Haul i'r blaned Sadwrn ac o ganlyniad i hyn logo Prifysgol Aberystwyth oedd y darn cyntaf o destun Cymraeg i ymddangos yn y gofod.



## Celf


Bu i'n hymchwilyr helpu i ddilysu darlun y credir ei fod yn un o fersiynau cynnar Leonardo da Vinci o'r *Mona Lisa*.

## Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Mae ein hymchwilyr wedi datblygu dull dwyster uchel o gynhesu'r corff sy'n cael ei ddefnyddio gan athletwyr Olympaidd.



# Aberystwyth: y dref



Mae Aberystwyth yn dref farchnad ar lan y môr, ar arfordir trawiadol Bae Ceredigion. Rydym ni'n enwog am fod yn gyfeillgar, a gallwn gynnig llefydd perffhaith ichi astudio, cwrrd ffrindiau, ymlacio a chael hwyl.

*Yr Hen Goleg, sef prif adeilad y Brifysgol pan gafodd ei sefydlu yn 1872. Y gobaith yw y bydd yn cael ei drawsnewid yn fuan yn ganolfan fywiog ar gyfer trefnadaeth, diwylliant a menter.*



# Aberystwyth



*Tua 9 milltir y tu allan i Aberystwyth mae canolfan feicio mynydd a bwydo barcutiaid enwog Nant yr Arian.*

# Sut i baratoi eich plentyn ar gyfer ar gyfer y brifysgol?

Cyn iddynt fynd...

- Gwnewch yn siwr bod eich plentyn yn cwblhau a dychwelyd eu cais am arian i'r corff ariannol addas (er enghraifft, Cyllid Myfyrwyr Cymru). Os na fydd y ffurflen wedi eichwblhau'n gywir ac mewn pryd gall eich plentyn gollu'r cyfle i dderbyn rhai o'r bwrsariaethau sy'n seiliedig ar prawf moddion sydd ar gael, neu efallai na fydd eu benthyciad yn dod drw erbyn dechrau'r tymor.
- Ydy'ch plentyn yn gyfarwydd â defnyddio peiriant golchi? A yw'ch plentyn yn gallu coginio rhai prydau bwyd?
- Sicrhewch fod gan eich plentyn gyfrif banc cyn dechrau'r y cwrs. Cofiwch ystyried cyfrifon arbennig i fyfyrwyr, a cheisiwch ddod o hyd i una fydd yn lleihau'r gorddrafft yn raddol, ar ôl iddynt raddio. Mae gwefan Martin Lewis yn cynnig cyngor gwych ([www.moneysavingexpert.com/students-family/](http://www.moneysavingexpert.com/students-family/))
- Ein bwriad yw darparu profiad o'r safon uchaf i bob myfyriwr, a sicrhau bod mynediad gan bawb i'n cyfleusterau academiaidd. Ar gyfer myfyrwyr anabl, rheini â chyflwr iechyd hir dymor, neu wahaniaethau dysgu penodol, gallwn drefnu amrywiaeth o gymorth e.e. llety wedi'i addasu, technoleg pwrpasol, a threfniadau arbennig ar gyfer arholiadau, fel bod eich plentyn yn gallu gwneud ei orau. I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych gwestiynau penodol, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bost: [disability@aber.ac.uk](mailto:disability@aber.ac.uk) neu drwy ffonio 01970 621761.
- Annogwch eich plentyn i gael nifer o luniau pasbort wedi eu tynnu cyn iddynt gyrraedd, gan y byddant angen nifer ohonynt yn ystod yr wythnos gyntaf.
- Cymrwch olwg ar ein Llyfryn i Drigolion, a ddarperir gan y swyddfa lety (mae hefyd ar gael ar-lein) gan fod gwybodaeth ddefnyddiol iawn ynddo a rhai syniadau da am fyw mewn neuadd.

Symud i fewn...

- Atgoffwch eich plentyn o'r dogfennau sydd eu hangen wrth ddod i'r brifysgol (yn cynnwys tystysgrif geni, tystysgrifau gwreiddiol arholiadau - weithiau gofynnir am rhain).
- Rhowch gyngor iddynt ar y pethau personol y bydd eu hangen arnyhau nhw a gwnewch yn siwr eu bod wedi hyswiro eu heiddo. Mae yswiriant gyfannol sy'n cynnwys myfyrwyr sy'n byw mewn llety ar gael. Ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan am yr hyn maen angen iddynt ddod gyda hwy
- Bydd angen iddynt dod â'u Ffurflen Rhyddhau Allweddol gyda hwy. Byddant yn derbyn un o'r rhain wrth iddynt gwblhau eu Rhaglen Groeso arlein. .
- Annogwch nhw i fynd a rhai pethau personol gyda hwy, er enghraifft lluniau, manion, posteri, dillad gwely penodol, neu glustogau ychwanegol. Bydd yn eu helpu i deimlo'n fwy cartrefol yn eu hystafell wely. Darperir pinfwrdd.
- Gallwch nawr archebu dillad gwely a rhai pethau cegin ar-lein nawr, a threfnu iddynt gael eu cludo'n syth i'ch llety. Am ragor o wybodaeth ewch i [www.aber.ac.uk/cy/accommodation](http://www.aber.ac.uk/cy/accommodation)
- Atgoffwch eich plentyn y gallant droi at aelodau Tim A (myfyrwyr presennol mewn crysau-t coch) ar unrhyw adeg yn ystod Wythnos y Glas. Gallant gael cymorth a chyngor am unrhyw broblem, a bydd Tim A yn gallu dangos iddynt ble mae pethau os byddant yn mynd ar goll.
- Ceisiwch sicrhau bod amser gyda chi ar y diwrnod symud i mewn os ydynt am fynd i siopa gyda chi, falle bo nhw'n edrych ymlaen i wneud hyn fel fordd o nodi'r achlysur!
- Cyn i chi adael, annogwch nhw i fod yn ofalus ond i fwynhau eu hun - dylent geisio ymuno â chymaint o gymdeithasau ag y gallant , a gwneud y gorau o'u hamser yn y brifysgol.

# Dyddiadau'r tymor

Mae'r flwyddyn academiaidd wedi ei rhannu'n ddau semester sydd wedi eu hymledu dros dri thymor. Sefir arholiadau yn y rhan fwyaf o fodiwlau ar ddiwedd y tymor yn dilyn y modiwl. Cyn pob cyfnod o arholiadau mae adrannau'n trefnu wythnos ddarllen sy'n galluogi myfyrwyr i ddal i fyny gyda'u hastudiaethau a pharatoi ar gyfer yr arholiadau. Er nad oes darlithoedd na gweithgareddau ffurfiol yn digwydd yn ystod y cyfnod yma, disgwylir bod y myfyrwyr yn dal i astudio.

Semester 1				Semester 2									
MEDI	HYDREF	TACHWEDD	RHAGFYR	GWYLIU	IONAWR	ARHOLIADAU	CHWEFROR	MAWRTH	GWYLIU	EBRILL	MAI	ARHOLIADAU	MEHEFIN
Tymor 1 (Tymor yr Hydref)					Tymor 2 (Tymor y Gwanwyn)					Tymor 3 (Tymor yr Haf)			

## Cysylltwch â ni

### Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr

Canolfan Croesawu Myfyrwyr  
Campws Penglais  
Prifysgol Aberystwyth  
Aberystwyth, SY23 3FB  
Ffôn: 01970 621761  
Ebost: student-support@aber.ac.uk

### Swyddfa Ffioedd Myfyrwyr

Canolfan Croesawu Myfyrwyr  
Campws Penglais  
Prifysgol Aberystwyth  
Aberystwyth, SY23 3FB  
Ffôn: 01970 628434  
Ebost: ffioedd@aber.ac.uk

### Swyddfa Derbyn Israddedig

Adeilad Cledwyn  
Campws Penglais  
Prifysgol Aberystwyth  
Aberystwyth, SY23 3DD  
Ffôn: 01970 622021  
Ebost: derbyn-israddedig@aber.ac.uk

### Swyddfa Llety

Y Sgubor  
Fferm Penglais  
Prifysgol Aberystwyth  
Aberystwyth, SY23 3FH  
Ffôn: 01970 622984  
Llinell gymorth 24awr: 01970 622900  
Ebost: llety@aber.ac.uk

### Trefn gwyno


Gobeithio y gwelwch ein bod yn sefydliad effeithiol a chyfeillgar. Ond, os bydd gennych gwynion am unrhyw agwedd ar y drefn denu a derbyn myfyrwyr, cysylltwch â'r Dirprwy Is-Ganghellor, Swyddfa'r Is-Ganghellor, y Ganolfan Ddelweddu, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BF. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor yn gwneud pob ymdrech i ddelio â chwynion o fewn 5 diwrnod gwaith. Os nad yw hyn yn bosibl, fe gysylltwch â chi i egluro beth yw'r trafferthion, a phryd y byddwn yn gallu rhoi ateb llawn i chi.


*Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir ar adeg mynd i'r waŋg (Chwefror 2020) ac fe'i bwriedir i fod yn ganllaw, ond mae'n bosibl bydd peth ohono'n newid. Ewch arlein am y wybodaeth ddiweddarai, os gwelwch yn dda.*







Prifysgol Aberystwyth  
Aberystwyth  
SY23 3DD

 01970 622021  
01970 623111

 [derbyn-israddedig@aber.ac.uk](mailto:derbyn-israddedig@aber.ac.uk)

 /Prif.Aberystwyth

 @prifysgol.aberystwyth

 @Prifysgol\_Aber

 /prifysgolAberystwyth

THE  TIMES  
THE SUNDAY TIMES

**CANLLAW  
PRIFYSGOLION  
DA  
2020**

**PRIFYSGOL  
CYMRU  
YN Y  
FLWYDDYN**